Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

HOWELL, DAVID (1797 - 1873), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

Enw: David Howell
Dyddiad geni: 1797
Dyddiad marw: 1873
Priod: Mary Howell (née Cadwalader)
Rhiant: Dafydd Howell
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn Waunbrics, Sain Clêr, Sir Gaerfyrddin, 31 Mawrth 1797, mab Dafydd Howell. Derbyniwyd ef yn ieuanc i gymundeb seiat Bancyfelin gan Thomas Charles o'r Bala. Aeth i Abertawe yn 1814 i ddysgu crefft teiliwr, ac ymaelododd yn eglwys y Crug-glas. Dechreuodd bregethu yno yn 1817; anfonwyd ef gan ei gyfundeb yn genhadwr i sir Faesyfed yn 1821, ac ymsefydlodd ym Mhen-y-bont. Ordeiniwyd ef yn sasiwn Llangeitho, 1824. Dychwelodd i Abertawe yn 1827, a phriodod Mary, merch ei hen feistr, John Cadwalader, blaenor gyda'r Methodistiaid. Aeth i Gaerfyrddin am dymor byr yn 1840; symudodd i Lanilltud Fawr yn 1842 i ofalu am eglwysi Methodistaidd Bro Morgannwg. Dychwelodd drachefn yn 1845 i Abertawe i fugéilio eglwys y Drindod, ac yno y bu yn fawr ei ddylanwad hyd ei farwolaeth ar 4 Awst 1873; claddwyd ef ym mynwent y Crug-glas. Yr oedd yn un o brif arweinwyr Methodistiaid Morgannwg ar hyd y ganrif ddiwethaf. Nid oedd yn bregethwr mawr; llefarai'n afrwydd a phregethai'n drymaidd. Ond yr oedd ganddo bersonoliaeth gref, a chredai pawb ei fod yn ŵr duwiol. At hyn oll rhaid ychwanegu ei ynni a'i weithgarwch diorffwys a'i gwnâi yn rym ac yn ddylanwad mewn byd ac eglwys.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

H. J. Hughes, *David Howell:-of Swansea. A brief memoir* (Casnewydd 1885), 1885

Y Drysorfa, 1919, 7-11

W. Samlet Williams, *Hanes Methodistiaeth Gorllewin Morgannwg sef hanes Eglwysi y Methodistiaid Calfinaidd yng Ngorllewin Morgannwg, o ddechreuad Methodistiaeth hyd o gylch y flwyddyn 1870* (1916), 19

E. Tegla Davies, *Can-Mlwyddiant Capel y Triniti, Abertawe*, 12-6

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732827

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Erfrannu

Arddull APA

×

Roberts, G. M., (1953). HOWELL, DAVID (1797 - 1873), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HOWE-DAV-1797

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government